

Cynllun Gwers

Blwyddyn: Dosbarth derbyn Cynradd dysgu Sylfaen: cyfrwng Cymraeg	Maes Dysgu a Phrofiad: leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	Nod y wers: Dysgu pryd i ddefnyddio ydy/nac ydy yn gywir fel ymateb i gwestiwn.
Gwybodaeth flaenorol: Mae’r dysgwyr wedi chwarae’r gêm “Plismon, Plismon” o’r blaen ac felly maent yn ymwybodol o reolau’r gêm. Roedd y plant yn canu cân am yr heddlu yn yr eisteddfod ysgol.	Geirfa allweddol a ffocws iaith: Ydy Nac ydy Ydy’r bêl gyda ti? Ble mae’r bêl? Treiglo’r “pêl” i’r “bêl” wrth ofyn y cwestiwn. Adolygu sut a phryd i ddefnyddio “ydy” neu “nac ydy” yn gywir fel ymateb i gwestiwn.	Gweithgareddau: Drilio’r ymatebion trwy’r gêm “Plismon Plismon”. Cyfle i bawb ymarfer gofyn y cwestiwn, cyfle i bawb ymarfer eu ymtebion. Wrth gwneud hyn, gallaf dynnu sylw at yr enghreifftiau cywir. Bydd hyn yn rhoi’r cyfle i’r plant i glywed gywirdeb iaith ac i wella.
Adnoddau: Pêl bach Het heddlu Gwisg heddlu	Patrwm brawddeg y cwestiwn yw “ydy’r bêl gyda ti?”. Yr atebion bydd “ydy” neu “nac ydy”.	

Adnoddau ar gyfer y wers



Helmed neu het
plasmon.



Pêl neu gwrthrychau
bach sy'n hawdd i'w
guddio.



Gwisg heddlu i hwyluso'r
wers.

Gwerthusiad – Beth wnes i a pham?

Ar gyfer y wers yma, roeddwn i eisiau ymarfer y patrwm brawddeg “ydy’r bêl gyda ti?” a’r ymatebion “ydy” neu “nac ydy”. Roeddwn i eisiau gwneud hyn oherwydd yn y wers flaenorol roedd y dysgwyr yn aml yn gofyn “ti?” ac yn ymateb gyda “ie” neu “na” ac i fod yn ramadegol gywir roedd hi’n bwysig i ymarfer y ffordd cywir o ofyn cwestiwn a’r ffordd cywir i ymateb.

Gan fod y dysgwyr wedi chwarae’r gêm o’r blaen, nid oedd angen cyflwyniad hir ar y rheolau ac felly er mwyn i’r dysgwyr cael cyfle i ymarfer gofyn y cwestiwn ac ymateb yn gywir roeddwn i wedi penderfynnu rhoi mwy o amser iddynt weithio fel grŵp a defnyddio’r patrwm iaith yn ymarferol drwy chwarae’r gêm dro ar ôl tro. Roedd hyn yn eu galluogi i ddatblygu hyder wrth ddefnyddio’r iaith yn gywir mewn cyd-destun siarad naturiol.

Gwerthusiad – Yr effaith ar y dysgwyr.

Roedd yr effaith ar y dysgwyr yn gadarnhaol iawn, gan fod ymarfer y patrwm brawddeg wedi cynyddu eu hyder a'u rhuglder wrth gyfathrebu. Ar ôl ymarfer gofyn ac ateb y cwestiwn mewn gweithgaredd strwythuredig a rhyngweithiol, gwelwyd cynnydd sylweddol yn eu gallu i ddefnyddio'r iaith yn gywir. Roedd y plant yn fwy parod i ymgysylltu â'i gilydd gan ddefnyddio'r cwestiwn a'r ymatebion priodol, ac roedd llai o gamgymeriadau'n cael eu gwneud o gymharu â'r wers flaenorol. Nodwyd hefyd bod y plant yn cymhwyso'r iaith yn fwy naturiol yn ystod trefn dyddiol yr ysgol roedd o dan arweiniad yr athro er enghraifft "ydych chi'n barod?" ac "Ydyn". Mae hyn yn awgrymu bod y sgiliau a ddatblygwyd yn ystod y wers wedi treiddio i'w ymatebion bob dydd, gan helpu i atgyfnerthu eu defnydd o Gymraeg mewn cyd-destunau ystyrlon. Er bod rhai dysgwyr yn dal i oedi cyn ateb neu'n gwneud mân gamgymeriadau, roedd hyn yn lleihau wrth iddynt gael mwy o gyfleoedd i ymarfer. Yn gyffredinol, roedd yr effaith yn amlwg, gyda'r plant yn fwy brwdfrydig ac yn dangos mwy o hyder yn eu defnydd o'r iaith.

Gwerthusiad – Beth nesaf?

Y cam nesaf i'r dysgwyr fyddai parhau i gryfhau eu dealltwriaeth a'u defnydd o'r patrwm brawddeg mewn ffyrdd mwy rhyngweithiol a phleserus. Gallai hyn gynnwys gemau rôl lle mae'r plant yn defnyddio'r cwestiwn "Ydy'r bêl gyda ti?" gyda gwahanol wrthrychau, neu gemau trochi gan ddefnyddio teganau neu gardiau i annog sgwrsio. Mae'n bwysig hefyd integreiddio'r iaith i chwarae bob dydd, gan annog plant i ofyn ac ymateb yn naturiol wrth chwarae gyda'u cyfoedion. Gall straeon a cherddi fod yn arf pwerus i atgyfnerthu'r iaith, trwy ddarllen straeon sy'n cynnwys cwestiynau tebyg neu ddefnyddio caneuon i wneud yr ymarfer yn hwyliog ac atgofus. Yn ogystal, gellid cynnal gwersi mathemateg, dyniaethau a gwyddoniaeth i helpu sut mae plant yn defnyddio'r strwythur yn annibynnol a nodi unrhyw fylchau yn eu dealltwriaeth ar y pryd, gan roi cefnogaeth ychwanegol os oes angen. Bydd y dull hwn yn helpu'r dysgwyr i feithrin hyder ac yn eu hannog i ddefnyddio'r iaith yn fwy rhugl yn eu cyfathrebu pob dydd.